YR

YMOFYNYDD.

CYFRES NEWYDD.] HYDREF, 1894. [RHIF 82.

"Profwch obb peth: deliwch yr hyn sydd dda."—PAUL.

JOHN RHYS THOMAS, NILES, OHIO.*

UN o ddarlithiau mwyaf gwerthfawr y diweddar Barch. Kilsby Jones oedd yr un ar "Ddynion wedi codi o ddim." Trwy ymdrech ddiflino, trwy ddyfalbarhad a phenderfyniad diysgog, yn unig y sicrheir llwyddiant yn mhob cylch; ac ystyriwn fywgraffiadau tebyg i'r rhai a ysgrifenir gan Samuel Smiles yn werthfawr i'n pobl ieuainc. Ni wneir arwr byth o ddyn fo'n digaloni o flaen yr anhawsdra cyntaf a gyferfydd. Gwnaeth "King Bruce of Scotland" lawer cais cyn ymollwng i anobaith, ac wedi iddo weled y coryn yn ceisio dair gwaith ar ddeg cyn llwyddo i esgyn y rhaff, cymmerodd yntau galon drachefn, a gwnaeth un cais arall, trwy yr hwn y daeth llwyddiant i'w arfau a lles i'w wlad.

Brodor o Lwydcoed, Aberdar, yw Mr. Thomas, a ganwyd ef yno 24 Chwefror, 1834 Enw ei dad oedd Thomas Evan Thomas. Yn naw oed gorfu iddo fyned dan y ddaear gyda'i dad i helpu i ennill ei fwyd. Ar y Suliau mynychai'r Hen Dy Cwrdd. Yn Ebrill, 1852, ymadawodd y teulu am Gwmaman Sir Gaer, lle y cychwynasant weithfa briddfeini (*bricks*). Yn 1856, ymunodd Mr. Thomas mewn glân briodas â Miss Morgan, Brynllwyd, a bu iddynt 11 o blant; o'r cyfryw y mae tri mab a dwy ferch etto yn fyw. Yn 1858, agorodd waith newydd o'r un natur yn Bynea. Yn 1866, aeth amgylchiadau yn ei erbyn, a gorfu arno geisio maes newydd. Aeth i Galifornia, lle y gwelodd amser caled; ond trwy ddiwydrwydd a chynnildeb, sicrhaodd yr hyn oedd angen i ddychwelyd i Gymru i nol y teulu. Ymsefydlodd yn Youngstown, Ohio. Gweithiodd yno fel mwnwr ddwy flynedd. Yna cychwynodd waith priddfeini

* Cafwyd sylwedd yr ysgrif ganlynol gan Thomas R. Morgan, Isw., prif berchenog *foundry* fawr y "Morgan Engineering Co.," yn Nhref Alliance, O., U.D.A., yr hwn sydd gymmydog i Mr. T., ac yn synied yn uchel am dano.

drachefn ar raddfa fechan. Yn 1872 cychwynodd Weithfa Briddfeini Tân yn Niles, Ohio, ychydig filldiroedd o Youngstown, mewn cyssylltiad â thri ereill—dynion cyfrifol yn yr ardal, a buont lwyddiannus iawn am dymhor. Yn 1874, dygwyddodd un o'r *panics* hyny sydd yn pasio'n ddisymwth weithiau dros y wlad hono, a syrthiodd y tri wyr cyfrifol o flaen yr ystorm. Aethant trwy lys y methdalwyr, gan adael yr holl gyfrifoldeb ar Mr. T. Ar ol ymdrech galed, gyda chydweithrediad ffyddlon a chalonog ei wraig, fe'i galluogwyd i orchfygu yr hyn a ymddangosai iddo un amser yn beth llwyr anmhossibl—talodd holl ddyledion y cwmni, ei ddyledion ei hunan a dyledion y tri ereill hefyd. Trwy ei ymddygiad anrhydeddus, aeth ei gredit yn y dalaeth yn uchel. Pan yn nghanol yr ymdrech galed, cafodd *batent* ar ffordd newydd i gymmysgu defnyddiau priddfeini tân, yr hwn a drodd allan yn ddarganfyddiad gwerthfawr, a dygodd y priddfeini newyddion ef i sylw yn mhob man. O hyn allan bu ei yrfa yn yrfa o lwyddiant didor. Yn 1879, prynodd dawdd dy blast, a melinau rholio; ac o bryd i bryd y mae wedi gorfod eangu ac adnewyddu yr oll drosodd a throsodd i gyfarfod â gofynion cynnyddol ei fasnach, fel erbyn heddyw y mae ganddo un o'r tawdd-dai goreu yn yr Unol Dalaethau, ac mae'n gallu troi allan 250 tynell o haiarn perchyll bob dydd. Ei brif gynnorthwywyr yw ei feibion ei hunan, y rhai ydynt wedi cael yr addysg oreu, ac wedi eu cyfarwyddo â'r gwaith yn ei holl gangenau. Awydd y rhieni oedd cadw y plant gerllaw, ac i gael digon o rywbeth iddynt wneyd. Deallant eu gwaith, ac y maent yn gwbl ymroddedig i'w gario yn mlaen yn anrhydeddus.

Y mae Mr. T. yn Undodwr o argyhoeddiad yn gystal ag o ddygiad i fyny, yn ddarllenwr cysson o'r YMOFYNYDD, ac yn ei garu'n fawr. Nid oes un capel Undodaidd yn ei gymmydogaeth, ond y mae'r Annybynwyr, er yn gwybod ei ddaliadau, wedi caniatau iddo ymaelodi gyda hwy; ac wedi caniatau iddo hefyd gael pregethwr Undodaidd—un o athrawon Coleg Meadville—i wasanaethu yn y capel amryw droion. Mae Mr. T. yn gyfranwr haelionus at achosion crefydd, ac y mae ganddo dy agored a groesaw bob amser i weinidogion crefydd o bob enwad, fel y gwyr rhai a glywsant ddarlith y Dr. Gomer Lewis ar Ffair y Byd.

Bu Mr. T. ar ymweliad â'r hen wlad yn 1892, er mwyn ei iechyd, a'r pryd hwnw gwnaeth ei hunan yn gyflawn aelod o'r Eglwys Undodaidd yn Hen Dy Cwrdd Aberdar. Y mae ar ymweliad yma etto yn awr, yn fwy y tro hwn fe allai er mwyn pleser. Treuliodd un Sul, sef Medi 2, gyda'r brodyr yn yr H.D.C., a'r noson hono darllenodd y papyr sydd yn canlyn isod. Nos dranoeth, ar ei gais, traddododd gweinidog Cefncoed bregeth athrawiaethol odidog yn yr un lle ar Delerau Maddeuant.

ANWYL FRODYR A CHWIORYDD,

Mae yn dda iawn genyf eich gweled, a chael y fraint o'ch cyfarfod yma heno, yn enwedig ein hanwyl weinidog. Wrth weled yn yr YMOFYNYDD, ac wrth glywed drwy gyfryngau ereill, pa mor wael y mae iechyd Mr. Jones wedi bod am gryn amser, yr oeddwn wedi

dechreu ofni y buasai wedi gorfod myned i ffordd yr holl ddaear cyn y cawswn I y pleser o'i weled a'i glywed. Gellwch, gan hyny, ddirnad fy llawenydd i'w weled heno mor hoyw. Gobeithio y bydd iddo gael byw i weled ei bedwar ugain a deg, ac y caiff nerth i wasanaethu ei eglwys a'i Dduw hyd ei fedd. Dwy flynedd yn ol, yr oeddwn yn teimlo ac yn dyoddef oddiwrth lesgedd ac afiechyd fel yntau, a meddyliais, y pryd hwnw, na chawswn byth mwy dalu ymweliad â hen fangre fy maboed yn Aberdar, a chael y cyfle i'ch annerch chwi fel hyn yn yr Hen-Dy-Cwrdd. Wrth gymmeryd arnaf fy hun y gorchwyl o ddweyd gair neu ddau o'm profiad, carwn alw eich sylw at un peth yn fwyaf neillduol. Tua deugain neu hanner can' mlynedd yn ol, nid oedd un sylw yn cael ei wneyd, na chymhelliad, oddigerth i fesur bychan iawn, yn cael ei estyn i'r to ieuanc i ymuno â'r eglwys; sut y mae yn awr nid wyf yn gwybod. Un peth yr wyf wedi dal sylw arno gyda boddhad, ac yr wyf yn ystyried yn welliant mawr, sef yr ail gyfarfod hwn. Mae cyfarfod o'r fath hwn yn ateb dyben daionus, drwy roddi cyfle a chymhelliad i hen ac ieuanc i ymuno â'r eglwys. Gobeithio nad oes yr un henafgwr yn awr, megys ag yr oedd pan oeddwn I yn fachgenyn, yn mynychu ein heglwys, ac yn arddel ei hun yn Undodwr, ac etto heb fod mewn gwirionedd yn aelod. Yn ol fy marn I mae nid yn unig yn anrhydedd i bob dyn, ond y mae hefyd yn ddyledswydd arno, i fod yn aelod crefyddol, hyd y nod, er mwyn ei blant, pe heb un amcan pellach. Bydd hyny yn gymhelliad iddynt hwythau i ddylyn esiampl eu rhieni, ac i ymuno. Gwn I am dani drwy brofiad. Yr unig reswm allaf fi roddi dros fod cyhyd cyn ymaelodi mewn eglwys Undodaidd yw diffyg cyfleusderau i hyny. Fel mae'r gwaethaf y modd, nid wyf wedi cael y fraint o glywed ond ychydig o bregethau Undodaidd er ys dros ddeugain mlynedd. Wedi i mi ymweled â'r ardal hon o'r blaen, cefais y fraint o ymuno ag eglwys fechan Seisnig yn Youngstown, Ohio, a gwnawd fi yn *trustee* o honi; ond y mae yn ddrwg genyf ddweyd fod yr eglwys hono, o ddiffyg ffyddlondeb ei haelodau, wedi marw.

Yn awr carwn, yn wresog ac yn ddifrifol, alw sylw ein gweinidog, ein diaconiaid, ac hefyd sylw pob aelod o'r eglwys, at ei ddyledswydd o gymhell ac o wasgu mwy ar y gwrandawyr i ddyfod yn aelodau,—rhoddi annogaeth aml, nid yn unig i'r gwrandawyr, ond i'w plant hefyd, pan fyddont yn ieuanc. Dyna, fel y tybiaf fi, yw un o'n colliadau ni fel Undodiaid—na fyddem yn cymhell mwy i ymuno â'n heglwysi. Dyna un o'r achosion am na fyddem yn fwy llwosog heddyw.

Yr ydych chwi, fel finau, wedi clywed llawer un yn dweyd ei fod yn Undodwr yn ei farn, Wel, os ydyw, paham na fyddai yn dangos hyny mewn gweithred? Byddai yn fwy dylanwadol mewn pob math o gymdeithasau.

Fy anwyl frodyr a chwiorydd, yr oeddwn wedi bwriadu dweyd rhywbeth tebyg i hyn pan ymunais â'ch heglwys tua dwy flynedd yn ol—rhwystrwyd fi i wneyd hyny gan gyflwr isel fy iechyd ar y pryd; ond yn awr, mae yn hyfrydwch genyf gael y cyfle i ddweyd yr hyn oedd ar fy meddwl y pryd hwnw, a gobeithio y maddeuwch i mi os yw fy ngeiriau wedi swnio i rai o honoch ychydig yn rhy arw. Dymuniad da dros

lwyddiant yr achos sydd anwyl genyf yw yr unig esgusawd a allaf gynnyg i chwi am ddweyd yr hyn a ddywedais. O bossibl mai hwn yw y tro diweddaf y caf fi y fraint o fod yn eich plith, ac hyderaf na fydd i'r ychydig sylwadau hyn beru tramgwydd i neb; ond, pan fydd rhai o'r bobl ieuainc sydd yma heno yn dwyn ar gof rywbryd y dyn hwnw o America a fu yn dweyd eu dyledswydd wrthynt mor hallt ac mor bendant, gobeithio y bydd iddynt, ar yr un pryd, gofio eu dyledswydd eu hunain i annog eu plant ac ereill i fod yn ffyddlon i'r achos da, ac i roddi eu hysgwydd dan y baich yn eu hieuenctid. Pa gynnifer o rieni sydd, o bossibl, yma heno a'u plant wedi myned i wlad bell, heb feddu ar unrhyw fath o grefydd, nac, mewn gwirionedd, yn mynychu unrhyw le o addoliad, ond yn gwastraffu eu hamser yn ofer a direol? Pwy sydd i'w beio? Dywedaf, eu rhieni.

Bum I yn aelod o eglwys Annybynol yn Youngstown, Ohio, am yn agos i ugain mlynedd cyn i mi ymuno â chwi yma yn yr Hen-Dy-Cwrdd; ond gwnaethum hyny er mwyn fy mhriod a'm plant. Ychydig amser yn ol, darfu i mi brynu, yn rhanol, gapel i'r Annybynwyr Cymreig, ar yr ammod fy mod i gael pregethwr Undodaidd Seisnig yno yn achlysurol ar fy nhraul fy hun; ac mor gynted ag y dychwelaf, yr wyf yn bwriadu cael fy mhregethwr fy hunan yno bob mis. Ni roddasai dim fwy o bleser i mi na gweled ambell i bregethwr Undodaidd Cymreig yn dyfod am dro i weled ein gwlad; a charwn yn fawr gael ambell i bregeth Gymreig ganddo ar ei daith, fel y cawn gan wahanol enwadau ereill. Yr wyf yn llettya mwy, fe ddichon, o bregethwyr o bob enwad nag un Cymro yn y Dalaeth ag y gwn I am dano; ac os daw byth rhyw bregethwr Undodaidd ar ei dro drwy y lle yr wyf fi yn byw ynddo, cofied fod iddo groeso calon yn fy nhy, a gwnaf fi a'm teulu bobpeth yn ein gallu i'w wneyd yn gysurus.

Dyma fi yn terfynu. Diolch yn fawr i chwi am eich gwrandawiad astud. Gobeithio y pasiwch heibio fy ffaeleddau; ac yr wyf yn gwybod y gwnewch hyny pan gofioch nad wyf yn arfer siarad yn gyhoeddus.

Y DDAU GANWR.

Rhyw ganwr gynt a ganodd gân o ddagrau,
Gwrandawodd ac fe wylodd y byd mawr,
Can's canu wnaeth am dristwch clau flynyddau
A gobaith wedi ei lethu hyd y llawr:
Mewn ing yr enaid gariai 'i faich yn mlaen,
A'i fyd oedd dristach, tristach, nag o'r blaen.

A chanwr arall ganodd gân gorfoledd,
Gwrandawodd ac fe wenodd y byd mawr,
Can's canu wnaeth am gariad Duw'r Trugaredd,
Am hyder ac ymddiried plant y llawr:
A'r enaid oedd o'r blaen yn drist ei wedd,
Dan ganu 'nawr a deithiai lwybrau hedd.

(Adsain). Hydref 7, 1893. T.C.U.

PREGETH (1 PETR I. 8—9).

"Yr hwn, er nas gwelsoch, yr ydych yn ei garu, yn yr hwn, heb fod yr awrhon yn ei weled, ond yn credu, yr ydych yn mawr lawenhau â llawenydd annhraethadwy a gogoneddus.

"Gan dderbyn diwedd eich ffydd, sef iachawdwriaeth eich eneidiau."

Gan y Diweddar Barch. W. Thomas (Gwilym Marles).

Mae yr hanes Ysgrythyrol yn ein taflu yn ol i amser tra rhyfeddol. Mae'r presennol yn hol rhan fawr o'i ddefnyddiau gwybodaeth a chysur o'r amser sydd wedi myned heibio. Mae Rhagluniaeth wedi bod yn gweithredu o oes i oes, ac y mae'r hanes o'i gweithrediadau ar rai cyfnodau, mewn modd neillduol, yn hawlio ein sylw, ac yn cyffroi gallu oedd penaf ein natur i weithgarwch a myfyrdod. Mae hi wedi bod yn ddymuniad lled gyffredin gan Gristionogion i gael byw ar y ddaear ar yr amser yr oedd eu Hathraw yma; ac nid yw yn ddymuniad annaturiol, er ei fod yn un nas gellid dysgwyl fod modd iddo gael ei gyflawnu. Mae i bob oes ei hanfanteision a'i manteision; a rhaid i'r rhai fo'n byw yn yr oes i ymfoddloni ar fanteision ac anfanteision yr oes hono. Nid annymunol, yn ddiau, gan lawer sydd wedi myned i orphwys oddiwrth eu llafur, fuasai cael byw yn yr oes hon, pan y mae y byd gwasgaredig yn cael ei gyssylltu yn nghyd mewn ffordd na fu erioed o'r blaen, drwy fod dyfais ddynol wedi d'od o hyd i allu agerdd a llawer o bethau rhyfeddol ereill. Peth syn i Pharisead neu Saducead wedi treulio ei holl oes yn, neu yn nghymmydogaeth Jerusalem, fuasai'r meddwl fod modd iddo dalu ymweliad â pharthau pellenig y ddaear. Braidd dichon y buasai'n credu neu yn dymuno y fath beth, oblegyd yr olwg gyfyngedig oedd yn ffynu ar y pryd am y ddaear a'i thrigolion a'i chrefydd. Etto, diau pe yn gallu cael golwg ar yr amseroedd hyn, fel sy' genym ni ar eu hamseroedd hwy, y buasai dymuniad am wybod rhywbeth am danom, os nid am ein gweled, a chael cymdeithasu â ni, yn ffynu. Yr wyf yn gwneyd y sylw hwn yn unig oblegyd fod rhywbeth neillduol a gwerthfawr yn perthyn i bob oes. Nid ydym yn cael un yn hollol ddiffrwyth a gwag o addysg a budd i'r meddwl. Rhai oesau, yn ddiau, yn fwy felly nag ereill, ond oll yn dwyn gyda hwynt eu baich o addysg a gwasanaeth. Nid wyf, wrth hyn, am ddweyd fod y naill oes yn gydradd a'r llall. Mae gwahaniaeth; ac ni ryfeddwn pe byddai pob un sydd yma heddyw yn ewyllysio, o flaen pob dim, gael bod yn bresennol ar y ddaear pan oedd yr Iesu addfwyn yma yn dysgu'r byd am y Tad, ac yn dadlenu ynddo ei hun oludoedd gwir fywyd dyn. Gweled yr Iesu! Mae llawer sant wedi gosod ei fryd ar hyn, ac wedi dychymygu pa ryw nefoedd fuasai cael gweled yr Iesu, a rhodio yn ei gymdeithas. Y gwir yw, mae *pob* oes yn llawn o'i phethau ei hun. Felly oedd yr oes pan fu y Sanctaidd hwnw ar y ddaear. Nid mawr y derbyniad a gafodd. Mae pob oes i fyny i'w mesur ei hun o wybodaeth a rhinwedd a duwioldeb, a dim yn rhagor. Gwyddom pa driniaeth a gafodd, ac ofer i ni geisio dyfeisio

pa dderbyniad a gawsai pe buasem ni yn byw y pryd hwnw gyda'n golygiadau uchel presennol am dano. Arswydwn rhag y buasai i ni fod yn euog o gyffelyb ymddygiad ato ag y sydd heddyw yn ddiarebol, gyda golwg ar y rhai oeddynt yn gydoeswyr ag ef. Rhaid i bob oes ddwyn, i fesur helaeth, ei thraul ei hun; ymryson â'i rhagfarnau; ymosod ar ei gwrthwynebiadau a'i gelyniaethau ei hun. Felly yr oedd hi yn yr oes hono, ac felly y mae hi etto; ond y mae cyssylltiad rhwng oes ac oes. Mae'r cyfan a fu yn effeithio ar y cyfan y sydd, fel ag y bydd i'r cyfan y sydd yn awr effeithio ar yr hyn a ddaw. Eraill a lafuriasant, ninau a gawsom fyned i fewn i'w llafur hwynt. Mae gwaddol mawr o addysg a doethineb wedi ei gasglu yn yr amser a aeth heibio, a'i drosglwyddo i lawr i ni, nid i'n cefnogi ni mewn difaterwch, ond i'n helpu i fyned yn mlaen at y gamp uchel,—galwedigaeth Duw yn Nghrist Iesu wedi ei gosod yn nod i bawb o honom gynnyg ato; ac nid oes braidd angen crybwyll lle mae ein golwg ni fel Cristionogion yn sefydlu yn benaf, sef ar yr Hwn y dygwn ei enw arnom.—yr Hwn y mae ffrwd amser wedi cario hyd atom yr hanes am dano gyda llawer bwlch; yr Hwn y mae ei addysg a'i fuchedd yn cael eu teimlo genym yr help cryfaf i ymarweddiad nefol; yr Hwn y teimlwn ein hunain yn cael ein tynu yn nes at y Tad drwyddo,—Iesu Grist yr Iachawdwr, am yr Hwn y sonir yn y testyn: "Yr Hwn, er nas gwelsoch, yr ydych yn ei garu."

Yn nhrefn Rhagluniaeth y mae hi wedi troi allan, na chawsom ni mwy na'r rhan luosocaf a alwant eu hunain ar enw'r Iesu, ei weled yn y cnawd. Nid oes genym ddim i'w wneyd gyda golwg ar hyn, ond ymfoddloni; ond nid yw hyn yn ei gwneyd yn anmhossibl i ni ei garu a llawenhau ynddo. Mae'r testyn yn amlwg ddysgu hyn: "yr Hwn, er nas gwelsoch, yr ydych yn ei garu." Etto, er nas gwelsom Ef, mae braidd yn afraid dweyd y rhaid i ni gael gwybodaeth am dano cyn y gallwn ei garu. Nid oes modd caru gwrthrych yn y byd heb wybod am dano, na llawenhau mewn gwrthrych yn y byd heb wybod am dano. Yr oedd y rhai oedd wedi bod yn rhodio gyda'r Iesu yn mynegu am dano wrth ereill o'r Cristionogion boreu; a thystiolaeth ysgrifenedig y cyfryw yw'r moddion trwy ba rai y deuwn ni yn awr yn adnabyddus ag ef. Mae'r dystiolaeth am dano yn dangos i ni pa fath un oedd. Nid yn gyflawn a pherffaith: mwy o waith nas gellir ei wneyd, yw tynu darlun cyflawn a pherffaith o unrhyw berson, ar bapyr ac inc; pan y mae dyn yn eistedd am ei ddarlun, dim ond copi gwan a geir o hono—dim ond help anmherffaith i'r meddwl i bortreadu'r dyn byw ger ein bron, ysgogiadau llygaid, symmudiadau'r corff, y mil o ffyrdd trwy y rhai, y mae'r meddwl yn pelydru allan, a bywyd yn dangos ei hun,—mae'r pethau hyn yn dianc. Meddyliwch am ymgais i dynu darlun o ddydd—rhyw un dydd cyfan, o doriad y wawr hyd yr hwyr—i gopio i lawr, godiad yr haul yn y bore, yn bwrw ei belydrau dirifedi dros wyneb y ddaear, yr awelon yn chwythu, y ffynnonau'n tarddu, yr afonydd yn llifo, y mor aflonydd a'i fyrddiwn tonau yn chwareu, a'i beroriaeth dwfn a pheraidd yn tori ar bob traeth, y cymmylau ysgafn-droed a symmudliw yn marchog ar esgyll y gwyntoedd, y blodau yn

agor, ac yn llwytho'r awelon a'u peraroglau, ac yn lloni calon dyn a'u tegwch—i gopio pryd a gwedd y dydd ar bob awr a munyd—yn holl amrywiaeth ei brydferthwch, yn ei gyfnewidiadau dibaid, yn nghyflawnder ei ogoniant—beth feddyliwch am hyn? Ynfyd fyddai'r sawl a roddai ei fryd ar gyflawni'r fath orchest—o dynu darlun cywir o ryw un dydd. Beth ynte am dynu darlun o ddyn ag sy'n fyd bach ynddo ei hunan, ag y tramwya ei feddwl yn gyflymach na'r goleuni, bwriadau ar fwriadau yn dilyn eu gilydd o'i fewn, deall a theimlad a serch, yn amlygu eu hunain ar bob munyd. Ai gwiw i hwn eistedd am ei ddarlun, gan ddysgwyl ei gael yn berffaith? Mwy etto, cael darlun o ddyn nid ar un adeg o'i fywyd, ond darlun o hono trwy ei holl fywyd, ac yn y cyfan yw ei fywyd; nid o ran ei gorff, ond o ran holl weithrediadau ei feddwl, ei serchiadau, ei amcanion, ei hiraeth duwiol, ei ymdrech rinweddol, ei ymddiried yn Nuw—cael darlun o hyn oll i lawr mewn geiriau ysgrifenedig—anmhossibl yw. Mae yn canlyn ynte, er mor werthfawr yn ein golwg, y cofnodion am yr Iesu sydd wedi ein cyrhaedd, nad ydynt na chyflawn na pherffaith—dim ond cais—dim ond cynnyg at roi i ni ryw feddylddrych am dano—dim ond *outline*, ag y rhaid i bob un a ddarlleno ei lanw hyd y gallo drosto ei hun. Ni fynegwyd mo hanner y gras a'r doethineb oedd ynddo. Etto, mae yn gweddu i ni fod yn ddiolchgar am sy wedi ein cyrhaedd, a bendithio Duw am y "gobaith gwynfydedig" a ddatguddir i ni yn yr Efengyl. Mae digon wedi ei gadw ar glawr i'n galluogi i ganfod o dan ba ddyled helaeth yr ydym i Dywysog a Pherffeithydd ein ffydd, i ddangos i ni, megys ymylon y cyflawnder mawr o ras a gwirionedd a breswyliai ynddo; mae digon wedi ei gadw ar glawr, i amlygu i ni y llwybr ar hyd pa un y mae rhodio yn nghymdeithas y Tad; mae megys ol ei droed i'w gael yn yr hanes, nes yw yr enaid ystyriol a difrifol yn barod i dori allan—

"Iesu hawddgar rwyf yn ceisio
Nerth i ddilyn ol dy droed."

(I'w barhau.)

Y CAPEL BACH.

Dichon mai dyddorol fydd gan rai o ddarllenwyr Yr Ymofynydd gael ychydig o hanes capel bychan perthynol i'r enwad Undodaidd yn S——, Lloegr. Yr oedd yna rai gwaddoliadau yn perthyn i'r capel bychan; ond os byddai iddo gael ei adael yn gauedig am dri Sul olynol, yr oedd y gynnulleidfa i golli'r oll. O'r diwedd, yr oedd yr achos wedi myned mor wan nes nad oedd ond dau yn ei gefnogi. Dywedodd un o honynt, yr hwn oedd yn hen foneddwr. wrth y llall—dyn ieuanc—na ddylent ar unrhyw gyfrif adael y capel yn gauedig am dri Sul. Wel, ynte, sut y meddylia eich darllenwyr y bu? Meddai yr hen wr wrth F——, "Mi ddarllenaf fi bregeth; cewch chwithau ganu" (gan addaw, wrth gwrs, ymuno goreu byth ag y gallai), "a gwnawn ein dau ddarllen

rhanau o'r Ysgrythyrau." Bob yn dipyn dechreuodd dau neu dri o fechgyn ieuainc ereill ddyfod yn rheolaidd i'r gwasanaeth, ac eisteddent rywle heb fod yn mhell iawn oddiwrth y pwlpud. Ymddangosent i fod yn ddynion ieuainc gweithgar, ac fod yr achos yn y lle yn agos iawn at eu calonau. Ryw ddydd Sabboth pan oedd yr hen wr oddeutu cloi drws y capel, dywedodd un o'r gwyr ieuainc dyeithr wrtho'n serchog, "Gadewch i mi gloi'r drws." Rhoddodd Mr. W. iddo'r cyfleusdra, a chlodd yntau y drws, gan roddi yr agoriad yn ei logell ei hun. Gofynwyd iddo am dani, ond gwrthododd yn bendant ei rhoddi i fyny. Dydd Sul a ddaeth, ond beth am yr agoriad? Yr oedd yn nwylaw'r rhagrithwyr. Daeth yr ail wythnos oddiamgylch, ond ni chafodd yr hen foneddwr ei ddymuniad. Dyma amser cyfyng, onide? Yr oedd yn rhaid wrth yr agoriad, neu, ynte, fforffetio'r gwaddoliadau! Ond yn ddisymwth, gwawriodd yna oleuni. Sylweddolwyd yr hen ddiareb Gymreig, "Yr awr dywyllaf o'r nos yw'r agosaf at y boreu." Ar ryw ddiwrnod o'r drydedd wythnos, penderfynodd Mr. W —— fyned i siarad â'r gwr dyeithr. Dywedodd wrtho am ddyfod ar unwaith i'r capel, am ei fod wedi gollwng yn annghof ei gob *(overcoat)*. Felly y bu—aethant ill dau i'r capel, ac agorodd y gwr ieuanc y drws; ond cyn gynted ag y gwnaeth hyn, gwthiodd Mr. W. ef i'r cyntedd, a chlodd y drws drachefn. Dyna'r llanc yn garcharor, a thra y bu yno, cafodd wers am yr hyn a wnaeth. Wedi iddo gael ei ollwng yn rhydd, yr oedd fel pe yn teimlo ei euogrwydd, ond nid oedd galw yn ol ar y weithred. Yr oedd erbyn hyn yn mysg y pethau a fuont. Trwy ffyddlondeb a diwydrwydd y ddau foneddwr hyn, mae yr achos wedi llwyddo i'r fath raddau, nes y mae y gynnulleidfa erbyn hyn yn alluog i gynnal gweinidog eu hunain. Cofiwn "Pa le bynag y mae dau neu dri wedi ymgynnull yn enw'r Arglwydd, ei fod yno yn eu canol," ac yn eu bendithio. Mae "Ffyddlondeb" heddyw fel cynt yn arwyddair cymhwys i'r rhai diwaith yn ngwinllan yr Arglwydd.

W.S.J.

DYCHWELIAD A DERBYNIAD YR AFRADLON.

Yn ddiddadl, fe ga'dd 'r afradlon,—heb iawn,
Dderbyniad heddychlon;
Ei Dad, heb un chwerw dôn,—wnai amgau
Ei fab 'n ei freichiau heb eiriau oerion.

Anturiodd heb haeddiant arall,—rhedodd
O'i grwydriadau annghall;
O'i deithiau du daeth y dall
I ddewis llwybro'n ddiwall.

Derbyniad heb ddim dirboeni,—na lladd
Yn lle'r mab er dofi
Llid Dwyfol;—wele'i radol Ri
Dosturiodd cyn gwrando'i stori.

O farw'n edifeiriol—y rhwyfai
I'r hafan ddymunol;
Yn awr ca'dd dderbyniad yn ol
Trwy ryw gariad tra rhagorol.

Troi o annedd trueni,—o farw
I fôr o dosturi;
Adre' o ganol drygioni
'E redai 'nol i freiniol fri.

O'r stormydd i'r tywydd tawel,—o'r ing
I rengau yr angel,
O'r ochain i gyflwr uchel,
O borthi'r moch i barthau'r mêl.

Dim dannod yr hen bechodau,—na balch
Bwyntio bys at feiau;
Môr o hedd wedi marwhau—pob nwyd—
Y ty a lanwyd gan sain telynau.

I hyfryd lan o'i afradlonedd—trodd
At ras a thrugaredd;
O wael 'stad i wlad y wledd—
I ganol pob digonedd.

Pontardawe. JAMES EVANS.

"THE WELSH PULPIT."

ENW yw'r uchod ar lyfryn sydd wedi ei gyhoeddi yn ddiweddar gan bersonau anadnabyddus a gyfenwant eu hunain "A Scribe, a Pharisee, and a Lawyer." Math o feirniadaeth ydyw ar y pwlpud Cymreig ac ar grefydd ein gwlad; ac y mae'r feirniadaeth yn llem, er nad yw un gronyn yn ormodol felly, yn ol ein barn ni. Mae Cymru wedi gwneyd cynnydd dirfawr yn ystod yr hanner canrif diweddaf—yn wleidyddol, yn llenyddol, ac yn addysgol; ond y mae yn amheus pa un a oes cynnydd wedi ei wneyd mewn ystyr crefyddol. Yr un athrawiaethau a bregethir heddyw ag a bregethid er's hanner can' mlynedd yn ol; mae'r un arferion yn cael eu cadw i fyny. Ni wneir un ymdrech i gadw i fyny â gwybodaeth fythgynnyddol yr oes. Y canlyniad fydd i grefydd golli ei thir. Gall gadw'r ymddangosiad allanol i fyny yn dda am amser; ond pan y daw y do ieuanc bresennol i weled, fel y maent yn sicr o ddyfod, nad yw'r athrawiaethau yn y rhai y dysgwyd hwynt yn abl i ddal eu tir yn ngwyneb yr ymosodiadau a wneir arnynt o wahanol gyfeiriadau, y canlyniad fydd i'r dynion ieuainc hyn lithro ymaith oddiwrth bob math o ddylanwad crefyddol; ac ni fuasai neb yn gofidio mwy nâ ni i weled hyn. Etto, rhagwelwn yn amlwg mai

felly y bydd, os nad agorir llygaid ein harweinwyr crefyddol, nes y sylweddolont yr angenrheidrwydd, o symmud yn mlaen, a dwyn eu hathrawiaethau crefyddol i fwy o gydgordiad ag ysbryd ac â gwybodaeth yr oes.

Cynnwysa'r llyfr dan sylw bedair pennod. Awdwr y gyntaf yw y Pharisead, ac yn y bennod rhydd ychydig o hanes ei ddygiad i fyny, darlunia arferion a neillduolion hen bregethwyr a arferent aros yn nhy ei dad yn ystod eu teithiau pregethwrol. Yr oedd ei dad yn ddiacon gyda'r Annybynwyr, ac yr oedd yn ofalus neillduol i gadw ymaith oddiwrth yr hyn a alwai efe yn "hudoliaethau y diafol," wrth y rhai y golygai "bleserau cyffredin bywyd," a chymmerai ofal na chai ei blant ymwneyd dim â hwynt hefyd. Felly, ni wyddent ddim am y chwareuaethau diniwed sydd yn gwneyd bywyd plentyn mor hapus; treulient y Sul mewn mynychu'r cyrddau arferol—y boreu, y prydnawn, a'r hwyr, a threulid pob nos o'r wythnos bron yr un fath. Darlunia'r awdwr yr Ysgol Sul a berthynai i'r capel, a difyr i'r eithaf yw'r darlun. Nid rhyfedd ei fod yn cyfaddef mai yn yr ysgol y celai yr ychydig ddyfyrwch diniwed oedd mor brin yn ei fywyd. Bodolai'r arferiad yno, mae'n debyg, i siarad ar ryw adnod o'r Beibl ar ddiwedd yr ysgol. Perthynai i'r ysgol hefyd berson a adnabyddid wrth yr enw, "Shonpwysa-bychan." Un Sul gofynodd yr holwr iddo, "John Williams, beth yw eich barn chwi ar y pwnc hwn?" Atebodd John Williams, "Yr wyf o'r un farn â'm brawd, John Jones." "Ond beth ddywedodd John Jones?" meddai'r holwr yn mhellach. Ar ol pesychu a throi am ychydig, dywedodd o'r diwedd, "'Wir, nid wyf yn cofio, ond yr wyf o'r un farn ag ef." Nid oes llawer o achos chwerthin yn hyn, efallai; ond i blentyn nad oedd yn cael cyfle i chwerthin ond yn anaml, yr oedd yr achos lleiaf yn ddigon. Palla gofod i ni sylwi ar yr hyn ddywed yr awdwr am y pregethwyr a arferent aros yn nhy ei dad, a'u harferion, yn nghyd â rhai o'r dygwyddiadau dyfyrus a gymmerasant le yn ystod yr ymweliadau hyn; ond wrth eu darllen, teimlwn fod y darluniau hyn yn ffyddlon a chywir. Darlunia rai pethau ag y byddai crefydd yn well hebddynt. Yr oedd yr awdwr wedi gadael yr Annybynwyr, ac wedi ymuno â'r Methodistiaid, ac y mae erbyn hyn, fel y dywed, yn sefyll yn uchel yn eu barn; ac y mae wedi cael llawer awgrym y dylai gymmeryd rhan fwy cyhoeddus yn y cyrddau gweddi a chyrddau ereill cyffelyb, gyda'r dyben o gael ei wneyd yn ddiacon. Er hyny, cymmer ofal i ddweyd nad yw mewn un modd yn berson gor-sanctaidd. Mwynha bethau da'r byd hwn cystal â neb: pan yr ä i Lundain, cymmer ofal i fynychu chwareudai; yf yn gymmedrol hefyd, ond cymmer ofal i beidio mynychu tafarndai oddieithr pan y mae oddicartref. Delia hefyd mewn "*stocks*," a chydnebydd nad yw hyn amgen twyll-chwareu, ond dywed fod ganddo o'i flaen esiampl llawer o ddynion o safle uchel yn yr Eglwys yn ei gyfiawnhau; a therfyna ei lith fel hyn:—"Siaradais y dydd o'r blaen ag un o'n diaconiaid yn nghylch y pethau, a gofynais iddo ei farn. Gan ogwyddo ei ben, efe a ddywedodd, "Wel, mae'r pethau hyn yn gofyn cryn dipyn o bwyll. I'r dyn a ewyllysia wneyd y goreu o'r ddau fyd, mae tri

pheth yn angenrheidiol—lle anrhydeddus yn yr Eglwys, cymmeriad da yn y banc, a chydwybod a fedr ymestyn tipyn.'"

Yn yr ail bennod traetha'r cyfreithiwr ei len ar "Addysg a dylanwad y Pwlpud." Cydnebydd fod ganddo ddylanwad mawr ar y genedl, a meddylia y deil llawer o'n pregethwyr eu cymharu â phregethwyr goreu Lloegr a Scotland; ond daw i lawr yn drwm ar y dosparth hwnw o bregethwyr sydd byth a hefyd, yn eu hymdrech i efelychu rhyw bregethwyr enwog, yn taranu ac yn bloeddio yn ddiddiwedd, a hyny ar ddim. Dywed am sylwedd y pregethau, eu bod gan mwyaf yn gyffredin iawn. Mae'r pregethau a glywir heddyw, meddai, yn debyg i siop, ffenestr yr hon sydd yn llawn, ond oddifewn yn wâg. Un o ddiffygion y pwlpud yw, ei fod ar ol yr amser—yn gul a digynnydd. Dywed fod addysg y pwlpud am y Beibl, Ysprydoliaeth, Iachawdwriaeth, y Drindod, Ymgnawdoliad, Dwyfoldeb Crist, a chospedigaeth dragwyddol, yr un peth yn awr ag ydoedd er's blynyddau lawer yn ol, ac hefyd, nid yw y pwlpud yn siarad yn ddigon gwrol a hyf am bechodau cyffredin yr oes.

Mae'r ddwy bennod olaf wedi eu hysgrifenu gan un a gyfenwa ei hun yn "Ysgrifenydd," ac yn un traetha ar "Y Pwlpud a Duwinyddiaeth," yn y llall ar "Y Pwlpud a Bywyd." Yn y pennodau hyn trinir y pynciau at y rhai y cyfeiriodd y cyfreithiwr, ond yn llawnach. Fel enghraifft o gynnwysiad y drydedd bennod, rhoddwn y dyfyniad canlynol o'r hyn a ddywed am Ddwyfoldeb Crist. "Mae llawer brwydr galed wedi ei hymladd o gylch yr athrawiaeth hon yn y gorphenol, ac nid yw yn debyg fod y brwydro drosodd. Pwnc mawr y dyfodol agos fydd Dwyfoldeb Crist. Beth am yr 'Ymgnawdoliad?' A oedd y Dysgawdwr o Galilea 'yn wir Dduw o wir Dduw?'" Ac yna dwg yn mlaen y gwyddon, y dadblygwr, a'r hanesydd crefyddol, i roddi eu barn ar y pwnc, er dangos nas gall y syniad hwn ddal ei dir, a gofyna'r cwestiynau awgrymiadol hyn—"Beth fydd y syniad iawnffyddol am Grist yn mhen hanner canrif etto? A fydd yr Eglwys Gristionogol yn Undodaidd? Mae gwyddor wedi taflu o'r neilldu, os (yn wir) y bu yn ei dderbyn erioed, y syniad o Ddwyfoldeb Crist: a ydyw'r Eglwys yn barod i ganlyn ei hesiampl?"

Palla gofod i ni sylwi yn fanylach ar y llyfr yn awr, er y carem wneyd rhagor o ddyfyniadau, yn enwedig felly o'r bennod ddiweddaf, yr hon yw y bwysicaf mewn gwirionedd o'r oll.

I ni, fel Undodiaid, mae ymddangosiad y llyfr hynod hwn yn arwydd calonogol iawn, o herwydd, fel y dywedodd y *Western Mail* am dano, "Undodiaeth ddigymmysg" ydyw o'r dechreu i'r diwedd. Nid oes amheuaeth nad yw yn cael ei ddarllen yn helaeth, a pho helaethaf, goreu i gyd. Nid oes amheuaeth nad yw yn dweyd perffaith wir pan y dywed fod syniadau newyddion yn dechreu gweithio eu ffordd i Gymru. Mae hyn yn ffaith ddiamheuol; ond ni chydnabyddir hyny gan y pwlpud. Ac yn ngwyneb y ffaith hon mae cyfrifoldeb mawr yn gorphwys arnom ni fel enwad, ond mae yn amheus a ydym yn teimlo'r cyfrifoldeb hwn i raddau digonol. Yn y llyfr mae un gosodiad mewn perthynas i ni, fel enwad, nad yw yn hollol gywir. Yn y drydedd

bennod ceir y geiriau hyn—"Dywed yr Undodiaid fod eu gwaith neillduol hwy wedi ei gwblhau. Honant eu bod wedi dysgu eu cydwladwyr i edrych ar Iesu Grist fel dyn." Nid wyf wedi clywed un Undodwr erioed yn dweyd y fath beth. Yn hytrach, teimla pob Undodwr nad yw eu gwaith yn Nghymru ond megys wedi dechreu, a cheir clywed rhagor am danynt yn fuan. Nid yw y camsyniad hwn yn un pwysig, ond camsyniad yw er hyny, a dylid ei gywiro. Terfyna'r llyfr fel hyn: "Mae'r dyfodol yn dywyll. Nis gwyddom beth a ddygwydd. Ond o un peth gallwn deimlo yn sicr—fod dylanwad yr Iesu i dyfu a chynnyddu. Y dduwinyddiaeth sydd eisieu arnom yn Nghymru yw dysgeidiaeth yr Iesu. Hon, a hon yn unig, a fedr foddloni ein dyhead. Mae duwinyddiaeth yr Iesu yn syml ac eglur. A dymunaf ddweyd wrth bregethwyr Cymru, Pregethwch yr Iesu i ni; dysgwch ni i fod yn gariadus fel yntau; dysgwch ni i garu'r gwir a chashau cyfeiliornad, i garu ein cyd-ddynion, ac i fod yn hunan-aberthol; dangoswch i ni brydferthwch sancteiddrwydd ac uniondeb; mewn egwyddor ac ymddygiad cymhellwch ni i fod yn gryf, yn anrhydeddus, ac yn bur; dysgwch ni i fod yn ffyddlon i'r gwir hyd at farwolaeth, fel yr Iesu, os bydd angenrhaid." Ac i hyn oll dywedwn ninau, Amen.

PHILOS.

ADGOFION BOREU OES.—VI.

LLED annygwyddiadol y bu fy mywyd, ag eithrio un dygwyddiad, yn ystod y blynyddau hyn. Yr oedd yn debyg i'r heulog nant, heb unrhyw awel i aflonyddu ei rhediad gwastadlyfn. Yr oedd y gorphwylledd rhigymol yn berwi yn boethach yn fy ymhenydd po henaf y buaswn yn dod; eithr er hyn oll, nid oes genyf un cof neillduol fy mod trwy hyny yn esgeuluso fy ngwersi yn yr ysgol. Pan na fuaswn yn yr ysgol, ac ar ol gweithio yn galed yn ffactri wlân fy nhad, rhoddai i mi yn achlysurol awr neu ddwy yn dâl am fy ngwaith er myned i chwareu gyda phlantos y pentre; ond anfynych iawn y chwareuwn; dewiswn yn hytrach rodio y meusydd wrthyf fy hun, neu fyned i'r goedwig gerllaw i wrando'r adar mân yn telori (os Haf fyddai), neu ddringo'r mynydd cyfagos, ac eistedd ar ei goryn mewn dedwyddwch maes-o-anadl, a syllu ar y golygfeydd prydferth oeddent yn weledig oddiar y tir mantais hwnw gyda theimladau y gallasai angel yn dda chwennych eu cyfranogi.

Dacw ddyffryn fy ngenedigaeth i lawr obry odditanaf. Yswain balch y plwyf ydyw ei berchen, ond nid efe ydyw perchen y tir-ddarlun prydferth; O na, myfi, a hwnw ydyw y rhan oreu o hono. Pa le mae dychymyg y bardd a all wella mewn geiriau y tawelwch byw sydd yn gorseddu ar y dyffryn islaw, lle mae ffactri wlân fy nghyndadau wedi bod wrthi yn ffyddlon am lawer cenedlaeth yn darparu "defnydd gwlan" i'r gwledig eithr hapus blwyfolion? O y mae pobpeth a welaf o'm deutu yn cyfranu ei linell i'r bryddest fawreddog ond mud!

"Beth? Natur Fawr yn fud, am nad oes llais
Ar dafod hon fel eiddo dyn? Rhyw drais
Ar feddwl Dwyfol fawr yw ceisio'i roi
Mewn gwisg ddaearol, oer, a chul, a'i gloi
O fewn cylch gair."

Ac er y darfu i mi ddringo i ben yr hen fynydd hwn fil a mwy o weithiau yn ystod dyddiau fy mebyd, a syllu ar yr hen ddyffryn hoff, etto yr oedd yn dwyn gydag ef, bob tro y gwnawn hyny, ei harddwch ei hun; "pob awr rhyw bictiwr na welais erioed o'r blaen, a'r hwn nas gwelir byth drachefn." Edrychwch ar yr haul yn machlud; edrychwch ar y cymmyl mein-golofnawg yn nofio megys pysg mewn môr o oleuni porfforaidd. "Oddiar y ddaear, yr hon sydd megys traeth, yr wyf yn syllu ar y tawelfor hwn." Dacw rywbeth draw yn y gorwel mor brydferth ag sydd yn fy natur fy hun. Ychydig yw y personau mewn oed, meddai un doethach na myfi, allant weled natur, Nid yw'r mwyafrif o bobl, medd efe, yn gweled yr haul; o leiaf, arwynebol iawn yw eu gwelediad o hono. Dim ond llygaid y dyn y mae'r haul yn oleuo, ond y mae'n dysgleirio i lygad a chalon y plentyn. Nid oedd natur byth yn gwisgo diwyg gyffredin i mi, pa un ai haf neu gauaf fyddai:

"Gauaf oedd farddonol farw,
Haf oedd yn farddonol fyw;
Yr oedd bywyd a'i rudd loew,
A marwolaeth a'i rudd wyw,
Yn ddarluniau o amrywiaeth
Y farddoniaeth fwyaf byw."

Y mae pob dyn i raddau yn derbyn argraff oddiwrth wyneb natur, eithr calon farddonol y plentyn hyd at berlewyg,

Os trown fy ngolwg i'r Gogledd, gwelwn Llandilo ryw bedair milldir yn y pellder; Coed y Ben-lan-fawr wedi eu hanfarwoli gan y bardd Teilo; parc prydferth Dynefwr, "lle neidia iwrch llon i'w daith;" dyffryn gogoneddus y Tywi "a'i wedd deg fel santaidd dir;" ac ychydig yn is i gyfeiriad y Gorllewin, yr oedd parc a phalas prydferth arall, Golden Grove. I'r Dwyrain Orllewin, wrth droed y Mynydd Du, dacw gastell maluriedig ac hynafol Carreg-Cenen, lle bu "gwron yn ngwrth gwron gwych," yn dyrchafu ei ben i fro y cwmmwl, ac yn tanio fy ngwaed gwladgarol wrth syllu arno. I'r Deheu, dacw bentrefi glan Llandybie a Cross Inn, eill dau ar bob o wastadedd teg, hyfryd, a ffrwythlawn. Nid gormod yw dweyd fod y cain olygfeydd hyn yn ddigon i greu bywyd mewn esgyrn sychion. Yr oedd rhyw ystyr i mi yn mhrydferthwch y greadigaeth nas gallasai yr awen oreu ei bortreadu. Y mae Burke wedi ysgrifenu traethawd ar y prydferthwch hwn; etto, nid yw wedi dweyd wrthym yr oll. Y mae Wordsworth, mewn manau, wedi rhoddi i ni y desgrifiadau mwyaf byw o hono; etto, yr ydym yn troi ymaith oddiwrth Wordsworth gyda theimlad o edmygedd a siomedigaeth—edmygedd am ei fod wedi dweyd cymmaint, siomedigaeth am na allasai ddweyd mwy. Nid yw hyd y nod y bardd Shakespeare yn ein llwyr foddloni. Y mae'r holl feirdd yn ein gadael yn mhorth

allanol y deml. Y mae teilyngdod mwyaf beirdd mwyaf y byd yn gynnwysedig yn eu hawgrymiadau o'r hyn nas gellir ei fynegu mewn iaith.

Yr oeddwn yn hoff iawn er cof genyf o wylio tymhorau natur. Y tymhor a roddai i mi fwyaf o swyn ydoedd yr Hydref, neu'r amser hwnw o'r flwyddyn pan y mae'n anhawdd dweyd pa un ai Haf neu Hydref ydyw, pan ymddengys fod y "ddau wedi cydgyfarfod, a'r Haf megys yn anfoddlawn ymadael, y mae'r Hydref yn ymaflyd yn ei law, ac yn ymhwedd arno i aros." Pwy eill roi darlun o harddwch ymddysgleiriol rhyw brydnawn melyn o Hydref ?

Dywedais "swyn." Pa beth a olygaf, meddwch, wrth "swyn," Wel, golygaf yr un peth a'r bardd Alfred Austin, mai dirgelwch ydyw nad yw yn hollol ddirgel—yr ymwybodadwy nad yw yn hollol anwybyddus. Nid yw heulwen yn swyno, er y gall ei fod yn hyfrydu,—eithr y mae heulwen-gysgodau, a'r Hydref yw y mwyaf swynol o'r tymhorau, am fod ei gysgodau yr hiraf, y tyneraf, a'r mwyaf parhaol. Y mae swyn yn cuddio yr hyn ag y mae'n broffesu ei ddatguddio, Y mae natur yn swynol, o herwydd, tra nad yw yn ymddangos yn cuddio dim, y mae'n cuddio'r cyfan. Y mae barddoniaeth yn swyno o herwydd ei fod yn defnyddio y sylweddol i osod allan y delfrydol. Y mae cerddoriaeth yn swynol am ei bod yn cyffwrdd yr annghyffyrddadwy. Swyn sydd awgrymiad. Y mae mor angeuol i swyn ymddangos ei fod yn cuddio unrhyw beth ag ydyw ei fod yn datguddio pob peth. Cyfrinach agored ydyw swyn, yr hon nad oes neb yn ei deall. Blin genyf am y dynion hyny ag y mae'r hyn a elwir gwyddoniaeth wedi eu cynnefino â bywyd nes y mae bywyd wedi colli iddynt ei ddirgelwch, a thrwy hyny ei swyn.

Wel, i gael dyfod at y dygwyddiad hwnw y soniais am dano. Yr oedd dyn yn byw yn y pentref na fydd o unrhyw fudd i neb o ddarllenwyr Yr Ymofynydd wybod ei enw. Yr oedd yn herwhelwr (*poacher*), a'r dyn, yn ol fy marn onest I, mwyaf drygionus a melldigedig a fu erioed mewn croen.

Wrth ddarllen *Rhys Lewis*, braidd na thyngwn mai 'Guto'r Garth Ddu' ydoedd. Cerddai yn wastad a'i olwg tua'r llawr, ac os dygwyddai i chwi ei basio ar yr heol, edrychai arnoch yn llechwraidd dan ei güwch, gan gadw'r naill ochr. Yr oedd pâr o lygaid almonaidd, y rhai oeddynt yn melltenu malais, wedi eu claddu yn ddwfn yn ei ben, ac mewn pellder parchus oddiwrth ei drwyn, yr hwn oedd hirsyth, a'i flaen yn fain a fflat, fel pe buasai rhyw amser cyn fy nghof I, wedi bod mewn feis. Gwelaf ef y fynyd hon, ac y mae iasau braw yn ymgripian dros fy nghnawd. Gwelaf ei wraig ef—yr hen Fari—ac O'r fath wrthgyferbyniad! mor ddiniwed â'r golomen, ond yn ddiffygiol yn rhinwedd boblogaidd y sarff. Os oedd ganddi hawl i unrhyw neilldduolrwydd, yr oedd hyny yn ei chariad at yr hen faled—

> "Morgan bach, fy machgen anwyl,
> Ie,'r bachgen bach, dinam," &c.,

yn nghyd a'i dull o siarad. Dechreuai a diweddai bob brawddeg gyda

"shwr dad." Dyma ddychymyg i chwi o'r *style* y gwisgai—wyl a gwaith—mewn dwy linell ieuanc o'm heiddo iddi—

"Hat-bob-cam, a chap a dwbwl forder,
Pais a betgwn lŵs, a dwy hen esgyd leder."

Bob "drô fawr," elai ei gwr ar fusnes neillduol i'r Gwter Fawr, ac o herwydd yr hyn a farnai y pentrefwyr oedd gamymddygiad o'i eiddo yn y lle hwnw, aethum at y gorchwyl o gyfansoddi cân iddo, a bu fy nghymdeithion ieuainc mor aflwcus a'i dysgu, neu yn hytrach, bum I mor aflwcus â'i chyfansoddi. Aeth yn arferiad gan y plantos i'w chanu ar hyd y pentref, a chostiodd hyny wythnos o wely i mi. Pan gyfarfum â'r Hen——nesaf, daeth ataf heb gymmeryd arno fod un drwg yn ei lawes; ond wedi iddo ymaflyd ynwyf, bum agos â llewygu gan ofn. Ysgyrnygai, malai ewyn, a bytheiriai bob-yn-ail, a'i lygaid bychain almonaidd yn dysgleirio gan gynddaredd. "Gwed dy breiers," meddai, a chyn rhoddi amser i mi wneuthur hyny, hyd y nod pe buaswn yn alluog, gollyngodd arnaf yn ddidrugaredd. Ciciodd a dyrnodiodd fi, a gadawodd fi ar yr heol yn anymwybodol. Credai yr holl gymmydogion fy mod wedi fy lladd, a gyrwyd ar gefn ceffyl i ymofyn doctor ataf, yr hwn a ddaeth ar frys. Bum yn y gwely, megys ag y dywedais, am wythnos wedi'r dygwyddiad. Yr oedd John Jones, y Shop, am ei dynu yn "ddau bishyn a phen," ys dywedai, ar unwaith; ond yr oedd y diafol hwnw mewn croen dyn wedi cymmeryd câr i ymguddio.

John Jones, y Shop, druan hoff! y mae yntau wedi rhodio ffordd yr holl ddaear. Y mae'n tawel huno yn hen fynwent Llandybie. Dyn nobl ac hynod ar lawer ystyr ydoedd ef. Y mae ei goffadwriaeth yn fendigedig genyf. Os bu dyn gonest a charedig yn y byd erioed, efe ydoedd. Os bu calon yn ymfyrlymu o ffraethineb hanner barddonol yn y byd erioed, calon John Jones, y Shop, ydoedd. Gwelais ef lawer gwaith yn gyru ei wrandawyr i bangfeydd o chwerthin. Dyn byr, o dewdra cyffredin, ac yn tueddu i wargrymu ydoedd; gwyneb crwngoch, yn nghyda dau lygad *brown* o faintioli mwy nâ'r cyffredin, ar dòr y croen, fel pe yn awyddus i neidio allan o'u swyddleoedd appwyntiedig. Ni fu un gofid ac afiechyd yn eu drwblu erioed, eithr ei fod wedi myn'd yn stiff ac yn gloff gan y gwynegon.

Yr oedd trder ac ieuenctid yn ei yspryd pan yn hen,
Yr oedd heulwen bur serchawgrwydd a ffraethineb yn ei wên,
Llawn tynerwch ac hynawsedd, y ddynoliaeth fwyna' 'rioed;
Yr oedd heddwch ymddigrifol yn blodeuo'n ol ei droed.
Nid oedd iasau oer, Gauafol, fel pe'n croesi'i natur fwyn,
Natur fel y Gwanwyn siriol lonai'r galon dan ei swyn;
Natur fel y llyn llyfn, gwastad, yn yr Haf heb grychiog dòn,
A delweddau hedd a chariad yn dysgleirio ar ei fron.

Ar ol iddo unwaith eistedd i lawr, yr oedd yn bur anhawdd ganddo wed'yn godi. Yr oeddwn yn ysgrifenu mewn clwb esgidiau mewn gwestty yn y pentref. Cynnelid ef ddau nos Sadwrn y mis, ac yr oedd John yn un o'r aelodau. Yr oedd wedi myned yn blê difrifol

rhyngddo ef a rhai o'i gyfeillion yn y clwb, a thrwy hyny, ni chlywodd fi yn galw ei enw i gael gosod ei swllt ar y plât. Ar hyn, dyma fi yn galw allan drachefn—a pheru iddo wneuthur brys i godi a dyfod â'i swllt i'r bwrdd, ond yr oedd yn analluog i frysio o herwydd y gwynegon. Nid cynt y gelwais allan yr ail dro, "John Jones, y Shop!" nag y gwyllt atebodd, "Dyma fi yn ddigon dishâp!" Yr oedd rhyw atebiad cyffelyb, ac yn fynychaf ar lun barddoniaeth, ganddo yn feunyddiol. Cyn ein bod yn ymadael a'r clwb, dyna ddyn adnabyddus yn y pentref yn brasgamu i fewn i'r gwestty â'i anadl yn ei ddwrn, ac yn dygwydd eistedd wrth ochr John ar y sciw. Wel, i fod yn blaen, ac i beidio celu ffeithiau, yr oedd blys annghymmedrol y dyn hwn yn ddiiweddar wedi bod yn agor bedd iddo. "Glased o wisci ar unwaith, os gwelwch chi'n dda," meddai yn gyffrous wrth wraig garedig y tŷ. Yr oedd John Jones erbyn hyn wedi gorphen ei wydryn, ac yr wyf yn dilys gredu pe buasai yn ei feddiant geiniog arall a dimai y buasai wedi mynu glasiad ychwanegol i gadw cwmni i'r llall. "Dyna fi wedi dodi hoelen arall yn 'y nghwffin," meddai dyn y chwisci gyda thrist ochenaid wedi iddo wancus lyncus ufelwy ei flys. "Dodwch hoelen fach yn 'y nghwffin ine Syr," meddai John wrtho, a gwên ymbiliol yn ymdywynu ar ei wyneb ffraeth a gonest; ac os y darfu i feibion syml llafur erioed, yn eu diniweidrwydd anystyriol, chwerthin eu hunain yn glaf yn ngwyneb digrifwch dywediad ar amgylchiad sobr, darfu i aelodau y clwb esgidiau ar y nos Sadwrn crybwylliedig. O!'r oeddwn yn ffrynd iddo, ac yr oedd yntau yn garedig i minau. Yr wyf wedi bwriadu lawer gwaith ysgrifenu ychydig o hanes ei fywyd, yn nghyd â'i ffraethebion doniol a phert, ond y mae amser hyd yn hyn wedi myned yn drech nâ mi.

Os nad ydoedd heb ffaeleddau, wel, dangoswch i mi ddyn
Nad oes argraff beiau arno mewn rhyw ddelw, ffurf, neu lun;
Beth yw dyn i farnu calon? rhyfyg myn'd i'r gysegr-gell,
Lle gwna holl-wybodaeth Duwdod ei anfeidrol ymchil well.

Rhondda. D. I. D.

NODYNAU GWASGAROG.

GLADSTONE FEL DUWINYDD.

Nid yw yn canlyn am fod Mr. Gladstone yn wladweinydd da ac yn Roegwr da, ei fod hefyd yn arweinydd dyogel ar faes duwinyddiaeth. Y mae yn ddyn galluog, yn ddyn cyflym a chyfrwys ar lawer ystyriaeth, ac yn ddyn na charwn I amheu ei onestrwydd na'i ddaioni; ond yr wyf yn amheu ei fod yn awdurdod mewn duwinyddiaeth. Y mae wedi ysgrifenu yn ddiweddar ar Heresi ac ar yr Iawn, a chymmysglyd yw ei syniadau ar bob un o'r ddau, Nid yw yn cofio fod dynion goreu'r byd—cymmwynaswyr cymdeithas yn yr ystyr goreu—wedi eu galw yn hereticiaid. Enw cas yw heretic heddyw, a chyflëir ef gan un enwad ac enwad arall mewn yspryd anmharchus ac annghristnogol. Heretic yw Gladstone yn ngolwg y Pab, a heretic dybiwn yw Mrs. Besant yn ngolwg

Gladstone. Nid yw Gladstone yn credu fod Mrs. Besant yn gywir yn ei syniadau am yr Iawn; ac ymddengys Gladstone yn ei bapyr hwn yn mhell o fod yn iawngred i'r eglwysi poblogaidd. Addysg y Llyfr Gweddi yw fod yr Iawn wedi ei fwriadu i gyfnewid Duw, i gymmodi Duw â dyn; syniad Gladstone yw mai yn y dyn y gwneir y cyfnewidiad—dyn a gymmodir a Duw yn ol yr Ysgrythyr.

HERESI A SISM.

Mae heresi a sism wedi dyfod i'r Eglwys, ac y maent wedi dyfod i aros. Gan hyny, y mae Mr. Gladstone yn barod i'w hamddiffyn. Wrth fwrw golwg dros faes y byd crefyddol, a gweled y gwaith da a wneir hyd y nod gan sismaticiaid, hyny yw, gan annghydffurfwyr, y mae'n rhaid cyfrif am dano. Mae yn amlwg fod Duw yn bendithio'r gwaith; beth yw dyn, ynte, fel yr aiff i'w feio? Ceisia Mr. Gladstone eangu a phrydferthu ystyr y gair, ac yn iawn felly. Fe addolodd Paul Dduw ei dadau yn ol y ffordd oedd yr Iuddewon yn ei galw yn heresi. Os caiff Mr. Gladstone fyw ddeng mlynedd i ysgrifenu ar bynciau duwinyddol, fe'i ceir ef yn sicr o flwyddyn i flwyddyn yn dyfod yn fwy rhyddfrydig ei feddwl. Uchel Eglwyswr i'r carn ydyw wedi bod, a chul i'r carn yw'r Uchel Eglwyswyr. Mae Mr. Gladstone yn ddyn o gydymdeimladau eang, a dysgwyliwn ef, gyda gwybodaeth eangach am yr enwadau, i ddyfod yn fwy parod i gydnabod y daioni sydd ynddynt.

Y MAER A'R ESGOB.

Mawr y twrw y mae rhai Undodiaid yn gallu achosi! Ar adeg ymweliad diweddar y Duc a'r Duces o York, â Liverpool, gwnaeth y Maer Mr. W. B. Bowring giniaw fawr i'w groesawi. Daeth yr esgob o belldder gwlad er bod yn bresennol yn y giniaw, a thystiolaeth y papyrau eglwysig yw mai dyledswydd y Maer oedd ceisio gan yr esgob i ddweyd bendith; yn lle hyny ceisiodd y Maer gan y Parch. R. A. Armstrong, B.A., (Undodwr) i wneuthur hyny, yr hyn, meddai'r Eglwyswyr, oedd yn *insult* uniongyrchol i'r esgob ac i bob Eglwyswr. Ateb y Maer i'r cyhuddiad ofnadwy yw, iddo geisio gan ei weinidog ei hunan i wasanaethu, yr hyn yw yr arferiad bob amser, ac nad oedd ganddo un meddwl i *insulto* neb. Nid oes un arwydd, a'r a wyddom ni, fod yr esgob yn edrych ar y dygwyddiad fel *insult* ——onid dechreu gofidiau yw hyn oll!

Y "LWBD" CYMREIG.

Y mae Ffynon Gwenfrewi wedi dyfod i gymmaint sylw yn ddiweddar fel achos effeithiol i wellhau clefydau, nes yw wedi derbyn yr enw,

"Lourdes" Cymreig. Ymddengys y gwelliantau yn wyrthiol braidd. Nid dyben y llinellau hyn yw dadgan un opiniwn y naill ffordd na'r llall. Tebyg y daw gwybodaeth fwy manwl bob yn dipyn, gan fod llawer yn awyddus i weled ymchwiliad yn cael ei wneyd gan ddynion profiadol. Mae y ffynnon wedi bod yn enwog o'r blaen, fel y mae "Lourdes," y Cyfandir wedi bod. Onid yw yn debyg fod pererinion un amser wedi arfer myned i "Lourdes," yn amser y pabyddion fe allai? Yn Ngheredigion defnyddir y gair "lwrd" am y dwst a gesglir ar y wisg wrth deithio'r ffordd fawr. Ymddengys dyn-a'i wisg wedi lwrdo yn debyg i bererin ar ei daith i "Lourdes." Cymharer y Saesneg: *Palmer*, pererin yn cario palmwydd; *to roam*, pererin ar daith i Rome, hyny yw Rhufain; *to canter*, cantro fel pererin ar gantar at fedd Sant Tomos à Becket yn Canterbury.

Y BEDYDDWYR A'R METHODISTIAID.

Gesyd y Bedyddiwr bwys mawr ar fedydd, a darfu i'r sylwadau a wnaed yn ddiweddar gan y Proff. Hugh Wiliams, beru iddo dybied fod y milflwyddiant yn ymyl, ac i ddysgwyl y cawsai weled y Methodistiaid yn fuan yn derbyn ei olwg ef ar athrawiaeth y bedydd. Tebyg fod ychydig o gamddealldwriaeth wedi bod gyda golwg ar sylwadau Mr. Williams. O leiaf, nid oes dim argoel etto fod y Methodistiaid yn parotoi i fyned drosodd at y Bedyddwyr. Nid yw'r Methodistiaid fodd bynag yn debyg o gwympo maes a'r Bedyddwyr; gadewir hyny i'r Annybynwyr. Rhywbeth rhyfedd iawn yw yr elyniaeth yma sydd rhwng y Bedyddwyr a'r Annybynwyr, ac nid wyf erioed wedi bod yn alluog i'w deall. Fel rheol, nid yw y dadleuon ar Fedydd ddim wedi bod er adeiladaeth ysprydol.

Y DOCTOR CHARLES LLOYD.

Mewn rhifyn diweddar rhoddwyd bywgraffiad o'r boneddwr uchod. Yn yr "Inquirer" am Awst 4, rhoddir y dyfyniad canlynol o waith y Parch. Benjamin Mardon:

"Bu y Dr. Charles Lloyd, un o'r ysgolheigion clasurol mwyaf cywir fu gan yr Undodiaid erioed, un amser yn weinidog gyda'r Bedyddwyr Cyffredinol yn Ditchling, yn Sussex. Dangosodd i mi yno gofnod yn y llyfr eglwys, yn cyfeirio at ei benodiad fel cynrychiolydd i'r "General Assembly." Yn Ditchling y darfu iddo ymostwng i Fedydd Credinwyr, ond ymddengys iddo yn ddiweddarach roddi i fyny yr ordinhad, gan dybied nad oedd wedi ei bwriadu i fod yn barhaol."

TROI AT GRIST.

Yn y Ffynnonau mi a gwrddais a hen wr, a ddywedai fod ei fam yn perthyn i'r Undodiaid, ond mai Methodyn oedd efe ei hun. Credai od pob Undodwr yn troi at Grist yn y diwedd, fod ei fam wedi gwneyd

hyny, a'r prawf o hyny oedd, mai ei geiriau olaf oeddynt,—"Myfi yw'r ffordd a'r gwirionedd a'r bywyd." Yn awr, y mae'r sylw hwn yn awgrymu llawer o bethau :—1. Fod yr hen wr ei hun wedi annghofio yr ychydig Undodiaeth a ddysgodd—yn anmherffaith ac annyben ddigon feallai—ar yr aelwyd gartref. 2. Ei fod wedi arfer clywed pregethwyr ei enwad yn camddarlunio Undodiaid, trwy ddywedyd eu bod yn gwadu Crist. 3. Ei fod yn meddwl fod ei fam yn gwadu Crist ar hyd ei bywyd, hyd iddi ddywedyd, "Myfi yw'r ffordd," &c. 4. Fod eisieu i Undodiaid fod yn fwy manwl gyda dysgu egwyddorion eu proffes i'r plant. 5. Ac eisieu i'r enwadau fod yn fwy gonest, a pheidio dwyn camgyhuddiadau yn ein herbyn. Wrth gwrs, nid ydym yn credu peth mor wrthun ag mai'r un yw'r Iesu a'r Bod a wnaeth y bydoedd. Q.Q.

OLYNIAETH APOSTOLAIDD.

Nid drwg yr hyn a ddywed un o'r cyfnodolion : Mae yr Olyniaeth Apostolaidd yn parhau, ac yn etifeddiaeth yr holl Eglwys. Rhagorfraint yw, a dyledswydd yn gorphwys arnom oll. Os ydym, fel y Thessaloniaid, "yn rhoddi ein hunain yn siampl i'n dylyn," yna yr ydym yn y wir olyniaeth. Os, wrth ganlyn Crist, yr ydym yn cynnal cariad o galon bur, a chydwybod dda, a ffydd ddiragrith, ac yn dysgu hyny i ereill, yr ydym mor wirioneddol yn y wir olyniaeth, ag oedd Timotheus, neu Paul o'i flaen. Mae y rhagorfraint a'r anrhydedd hyn yn perthyn i'r holl saint.

Ebe adroddiad yn un o'r papyrau newyddion : "Os bydd i chwi ddywedyd anwiredd," ebe'r barnwr, "beth a ddygwydd i chwi?" "Wn i ddim" oedd yr ateb. "Glywsoch chi erioed am y nefoedd," ebe'r barnwr. "Naddo I," oedd yr ateb, "ond mi glywais am uffern." "A phwy" meddai'r barnwr, gyda bwriad i argraffu ar y naw mlwydd oed y pwys o ddywedyd y gwir, "fydd yn myned i uffern?" "Y Protestaniaid!" oedd yr ateb heb bryder yn y byd. Yr oedd y tyst yn amlwg wedi ei ddwyn i fyny yn mhlith y Pabyddion. Pe wedi ei ddwyn i fyny yn mhlith athrawon Eglwys Loegr, buasai yr ateb yr un mor barod—"Yr Annghyddffurfwyr!——Y wers : O, fel y mae'r Cristnogion yma yn caru eu gilydd!!

Mae hen Eglwyswr parchus wedi darllen "gyda phoen a chywilydd," y bregeth a draddodwyd gan Ficer St. Thomas, Coventry, yn nghapel y Wesleyaid, yn yr hon y mae yn dadgan y pleser mawr a deimlai am gael y fraint o bregethu am y tro cyntaf mewn capel Annghyddffurfiol. Mab yw'r Ficer i'r Archddeon Farrar, ac ymddengys ei fod am efelychu rhyddfrydigrwydd ei dad. Ond pechod ofnadwy yn ngolwg Eglwyswr yw i offeiriad hyd y nod dywyllu dros capel Annghyddffurfiol. Ac mewn llawer eglwys dysgir y plant bach yn yr Ysgol Sul ei fod yn bechod anfaddeuol i fyned i un o'r capelau. Dywedodd Paul unwaith : "Profwch bob beth ; deliwch yr hyn sydd dda."

IAITH FYCHANUS.

Mae y *Church Review* yn gollwng tipyn o'i speng ar draws Cynnulleidfa yn Leicester, am wahodd Iuddew, sef Maer Leicester, i ddarllen yr ysgrythyrau yn y capel. Dywed wrth Dr. Parker fod yn rhaid iddo edrych at ei *laurels* a cheisio bod i fyny â Leicester trwy wahodd "Mr. Copeland Bowie i bregethu yn ei gapel. Undodwr yw Mr. Bowie, ac mae'r Undodiaid a'r Iuddewon yn gyffelyb yn un peth—ni chredant yn Nuwdod Crist. Nid yw Mr. Bowie, yn wir, yn Iuddew hollol, ond y mae yn *imitation* da, a thrwy ei drosglwyddo i bwlpud y Viaduct, byddai y doctor parchus yn *quits* â gwladwyr Leicester." Dyna'r yspryd snochtaidd geir yn rhy fynych yn yr eglwys sydd yn cael ei chynnal ar draul y wlad, ac y mae yn yspryd hollol annheilwng o Gristnogaeth.

Y DARLUNIAU: CYNLLUN I'W CADW.

Mr. Gol.,—Cynllun rhai yw tori'r darluniau allan a'u gosod mewn ffram; cynllun gwell yn fy ngolwg I, fydd gofalu am y rhifynau o'r YMOFYNYDD am flwyddyn neu ddwy, ac yna eu rhwymo yn llyfr. Fe'u dyogelir yn well, ac fe gedwir y bywgraffiadau gyda'r darluniau. Dyna fel y bwriadaf fi wneuthur.

Gobeithio y daw tansgrifiadau lluosog i fewn, fel y gellir parhau y gyfres. M.M.

CYFRES Y DARLUNIAU.

MR. GOL,—Gair yn fyr mewn cyssylltiad â'r uchod. 'Rwyf yn cydweled yn hollol â "Gwyliwr" mai tra derbyniol fyddai cyhoeddi darluniau yr hen weinidogion fu'n sefyll i fyny dros Undodiaeth Gristionogol yn y blynyddoedd aethant heibio. Hefyd, carwn weled *group* o honynt, fel y gallesid eu gosod mewn *frame*. Credaf y byddai'n hawdd ddigon clirio'r draul, ond myned at y gorchwyl yn y ffordd iawn. Yn hytrach na chodi yn mhris yr YMOFYNYDD, buaswn yn awgrymu fod casgliad yn cael ei wneyd yn yr holl eglwysi tuag at yr amcan. Pe bai'r gweinidogion ond gosod y cwestiwn gerbron eu cynnulleidfaoedd, ceid pobpeth i drefn ar unwaith. Felly, ati heb oedi, gyfeillion.

Ciliau. UNDODWR.

TYSTEB I'R PARCH. THOMAS THOMAS, GREEN PARK.

Derbyniwyd yn ychwanegol gan ysgrifenydd pwyllgor cynnulleidfa Pantdefaid y tanysgrifiadau canlynol at y dysteb uchod. (Ar gais rhai o'r cyfeillion, gohiriwyd yr amser i dderbyn tanysgrifiadau gan ysgrifenydd pwyllgor Pantdefaid hyd ddiwedd y mis hwn, Medi):—Miss Williams, 14, Grace-Church Street, Llundain, £1 1s.; John Davies, Coedfol, 5s.; Evan Evans, Ysgol Feistr, Llanfihangel-ar-Arth, 5s.; J. R. Thomas, Ysgol y Bwrdd, Pontshan, 5s.; David Jones, Rose Hill, 2s. 6ch.; Evan Walter, Ffynnonsar, 2s; Mary Walter, etto, 2s.; Anne Thomas, etto, 2s.; David Thomas, Cwmdyllestfach, 2s. 6ch.;

John Thomas, Glanclettwr, £1 1s.; David Jones, Frondes, ger Gwardafolog, 5s.; D. C. Jones, Danffynnon, 10s. 6ch.; William Jones, Gelliaur, 5s.; H. Jones, Siop, Rhydowen, 3s.; Lettitia Jones, Glaslwynfach, 2s. 6ch.; Rees Evans, Criborlwyd, 2s. 6ch.; Sarah Evans, etto, 2s. 6ch.; Gwinie Jones, Gwarllwynoidos, 2s. 6ch.; Thomas Thomas, Cwmdyllest, 10s. 6ch.; Hannah Davies, Gwastod, 5s.; Cyfaill, £1; John Thomas, Lower Factory, Talgarreg, 5s.

O Gapelgroes.

Evan Evans, Ty'nffynnon, 5s.; William Thomas, Pantyronen, 2s.; Simon Evans, Ty'nwaun, 2s. 6ch.; Henry Howells, Llanwnen, 2s.; Miss Hannah Williams, Llanwnen, 3s.; Miss Mary Jenkins, Abercerdinen, 5s.; Misses Thomas, Rhandir, 10s.; William Jones, Blaenwaun, 7s. 6ch.; William Williams, Hendy, 2s.; Timothy Davies, Hendy, 5s.; Miss Mary Jones, Castelldu, 3s.; Evan Jones, Waunnani, 10s.; Evan Howells, Esgairinglis, 10s. 6ch.; John Daniel, Clyn'rhelyg, 5s.; Miss Martha Thomas, Gwarcwm, 2s. 6ch.; Miss Jane Davies, Pantteg, 2s. 6ch.; Miss Elizabeth Davies, Redlionfach, 2s. 6ch.; Miss Jane Jones, Felinban, 2s.; Miss Hannah Jones, Felinban, 2s.

Os oes rhywun yn chwennych dangos eu hewyllys da at yr achos uchod, nid oes amser i'w golli; oblegyd yr ydym yn ystyried fod y dysteb braidd wedi ei chau i fyny.

Y DR. GRIFFITHS, PONTYPRIDD.

Deallwn fod y boneddwr uchod yn bwriadu cychwyn ar y *war-path* etto tua'r mis nesaf, gan ddechreu yn Llanelli! Gobeithiwn fod y ddau bregethwr a enwogasant eu hunain yn nghyfarfodydd y Parch. J. Davies wedi meddalhau ychydig yn ystod y 18 mlynedd sydd wedi pasio oddiar 1876, ac y bydd iddynt ymddwyn yn foneddigaidd a Christnogol tuag at y Dr., gan adael iddo ei fywyd ac ychydig o'i *enthusiasm*, fel y gallo barhau ei Fudiad Rhagblaen yn y Gogledd ddechreu'r flwyddyn. Dywedir nad yw Mr. Davies wedi bod byth yr un fath wedi y ffrwgwd yn Llanelli. SURSUM CORDA.

YDYW ANFFYDDIAETH AR GYNNYDD?

CYMMERIR dwy golofn o'r *Herald Cymraeg* am Medi 25ain i drin y *Welsh Pulpit*; ond ni waeth beth wnaiff Cadeinion (Einion a'i Gâd), y mae'r *Welsh Pulpit* yn cael ei werthu a'i ddarllen. Yr ydys wedi gwerthu dros gant copi mewn lle mor annghyspell a Llandrindod. Mae y *Traethodydd* wedi cymmeryd cam yn mlaen—wedi cyhoeddi ateb un Mephisto i erthygl y Parch. David Evans, M.A., Bermo, ar "Iesu a Renan." Gwir fod y Golygydd, wrth ollwng y gwenwyn (?) i fewn, wedi blaenddodi rhagymadrodd mewn ffordd o *apology*, ac wedi ceisio gan D. Evans i ddarparu'r gwrthwenwyn, yr hyn a wna yn yr un rhifyn mewn erthygl o 13eg o dudalenau. Ceir yn y *Traethodydd*, fodd bynag, erthygl mewn adolygiad ar lyfr Drummond ar "Esgyniad

Dyn," yr hon, gydag eithrio ambell i os ac ond, sydd yn ardderchog, ac yn teilyngu darlleniad manwl a gofalus. Syna'r *British Weekly* (Medi 27) at feiddgarwch golygydd y *Traethodydd* yn cyhoeddi erthygl Mephisto, a dywed na fuasai un golygydd yn Nghymru yn beiddio gwneuthur hyny ychydig flynyddoedd yn ol. Yn y *Manchester Guardian* (Medi 22), fe awgrymir na fyddai niwed i olygwyr Cymru feddu ychydig ragor o ffydd yn nerth y wirionedd, a pheidio crynu pan yn cyhoeddi erthyglau tebyg i eiddo Mephisto. Mae y *Genedl* wed cyhoeddi adolygiad ar erthygl Mephisto a'r ateb, dan y pennawd: "A yw Anffyddiaeth ar gynnydd yn Nghymru?" Yn y *Carnarvon and Denbigh Herald* (Medi 21), mae erthygl dan y pennawd: "Theological Corruptions," yn yr hon y gwneir cyfeiriad at y cais i rwystro cyfarfodydd Dr. Griffiths yn y Gogledd, ac at lyfr Adams ar "Ddadblygiad," a'r *Welsh Pulpit*, a llyfr Drummond, ac erthygl Mephisto; ac yn y *Drych*, fe ddywed y Golygydd dipyn o newydd wrthym, fel hyn: "Dywedir mai tri Cymro o Gaernarfon yw *Scribe*, *Pharisee*, *and Lawyer*, awdwyr y *Welsh Pulpit*, llyfr anffyddol Seisnig, gyhoeddwyd yn ddiweddar yn Llundain—un o honynt wedi ei fagu gyda'r Annybynwyr, a dau yn aelodau gyda'r Methodistiaid; sef R. A. Griffith, Cyfreithiwr; J. O. Jones (ap Ffarmwr), cyn-olygydd y *Genedl*; a David Edwards, rheolwr y *Nottingham Express*. Maent yn gwneyd gwawd o bethau cyssegredig y grefydd Gristionogol, hyd y nod 'y gwaed sydd yn glanhau oddiwrth bob pechod.'"

STILPO.

MEDDWDOD.

MEDDWDOD yma dd'wedwn—ni welir
Ei waelach, ni welwn
Fod ein byd yn fyd dan bwn
Lwybrau anial bro annwn!

Nos galanas gelynion—gŵl agwedd
Gilwgus ar ddynion;
Gwae y fall ar gyfeillion;—tremiad hyll
Ar wr yn sefyll yw'r erwin safon.

Cwrw! hanes gerwinol—ganlynodd
Gynnil anian leddfol
Fu'n ei loches aflesol;—dyma gyd
Mynai ei gymmeryd, mae'n gi marwol!

O! ffyrnig gableddus ffwrnes!—dinystr
A daena o'i mynwes;
Llwyda'r anial, lladrones
A rhyw ffrwyn am aur a phres.

Iselbad gormesol yw—arweinydd
Yr enaid i ddystryw;
Anaddas i ni heddyw,
Dalla fedd ein dull o fyw.

Dyryswch daear isod—camwri
Cymmeriad yw "Medd'dod;"
Gwelwn ni mai gwael yw nod
Y gwr a gara'r gwirod.

Mae anian yn griddfanu—mae rheswm
Yr oesau yn synu;
A chwyn yn amgylchynu
Gair Ner yn y dyfnder du!

Ymestyn at gymhwyster—a ddylem
Trwy ddylyn cyfiawnder;
A difa bywyd ofer,
I gadw'n iawn gyda Ner.

O! mae'n rhyfedd i feddwl
Am rhyw ddyn, ei fod mor ddwl
A yfed gloesion afiach
Yn y byd am enw bach.

O frodyr! yn unfrydol!—ymunwn
Am enwau dirwestol;
A cheisiwn ddwr iachusol;—awn o wydd
Mor ynfydrwydd at y Mawr Anfeidrol!

Trebanos. BEN DAVIES.

Manion ac Hanesion.

GELLIONEN.—Cynnelir y Cwrdd Chwarterol nesaf yn y lle hwn ar y 7fed a'r 8fed o Dachwedd. Bydd y cwrdd, hefyd, yn gwrdd agoriad y capel newydd yn Nhrebanos. Yn y prydnawn gosodir yn eu lle y meini coffadwriaethol, a gwneir hyny gan Mr. J. H. Rowland, Y.H., Castellnedd, ac un arall nad ydys etto wedi penderfynu arno. Mae y cyfeillion yn Ngellionen yn gobeithio cael gweled yr holl weinidogion yn bresennol, a chyfeillion ereill yr enwad.

CWMBACH.—Ar Sul, yr 16eg o Fedi, pregethodd y Parch. T. Lloyd-Jones, o L'erpwl, yn y capel hwn, a rhoddodd foddlonrwydd mawr.

PORTHCAWL.—Da genym ddeall fod ein cyfaill, y Parch. W. J. Phillips, wedi ei ethol yn arweinydd y gymmanfa ganu berthynol i Annghydffurfwyr y lle hwn, yr hon a gynnelir ar adeg y Nadolig nesaf.

HIGHLAND PLACE, ABERDAR.—Cynnaliwyd cyfarfodydd diolchgarwch am y cynauaf yn y lle hwn y Sul, y 23ain o Fedi, pryd y pregethwyd yn y prydnawn a'r hwyr gan y Parch. T. B. Evans, Heywood, ger Manchester.

MERTHYR.—Pregethodd y Parch. E. D. Priestley Evans, Kidderminster, yn y capel Undodaidd yn y dref hon, i gynnulleidfaoedd da iawn, a chlywsom ganmoliaeth uchel iddo.

Marwgofion.

Ebrill 29, yn 4, Jubilee Terrace, Mintern Terrace, Hoxton, Llundain, William Evans, saer coed, yn 62 oed. Claddwyd yn Nghladdfa Ilford Mai 5. Yr oedd Mr. Evans yn enedigol o Caerau, Cellan, ger Llanbedr, ac yn frawd f'r ddiweddar Mrs. Davies, Neuadd Arms. Cafodd gystudd hir a phoenus. Yr oedd yn Undodwr selog,

ac yn ddarllenwr cysson o'r YMOFYNYDD o'i gychwyniad yn 1847.

Awst 3, Eleanor Thomas, Rhandir, Llanybyther, yn 63 oed. Yr oedd Mrs. Thomas yn aelod yn Nghapelgroes, lle yr oedd yn rhoddi ei phresennoldeb, hi a'i merched, yn gysson iawn tra y bu yn mwynhau ei chynnefinol iechyd. Claddwyd hi y dydd Mawrth canlynol yn Mynwent Capelgroes, gyda'i hanwyl briod, yr hwn oedd wedi ei blaenu er ys blynyddau, yn mhresennoldeb tyrfa luosog a ddaethant yn nghyd i dalu iddi y gymmwynas olaf. Pregethwyd ar yr achlysur gan y Parch. T. Thomas, a chynnorthwywyd gan y Parchn. J. Davies, Alltyplaca; D. Evans, Cribin; ac E. E. Jenkins, Capelgroes. Gadawodd fab a phum' merch i alaru ar ei hol.

Awst 16, D. Davies, Gwastod, Plwyf Llandyssul, yn 76 oed. Goroesodd ei wraig ryw chwe' mlynedd. Ar y 18fed o'r un mis, hebryngwyd ei weddillion marwol i gladdfa Pantdefaid. Yn y ty ac yn y capel a'r fynwent, gwasanaethodd y Parch. W. J. Davies, Llandyssul. Gadawodd un ferch ac un mab i alaru ar ei ol. Dyn tawel, caredig, a diwyd, yn ystod ei oes fu yr ymadawedig, ac yr oedd gair da iddo gan ei luaws adnabyddion. Yr Arglwydd fendithio y ddau a adawyd yn ystod eu taith ar y ddaear.

Medi 17, yn Clive Place, Trecynon, wedi goroesi ei phriod 23 mlynedd, Margaret, gweddw William G. Watkins. Ganwyd hi Gauaf blwyddyn y rhew mawr, 1813—14, ac felly yr oedd bron cyrhaedd 81. Yr oedd yn chwaer i Cynonwyson, yn ferch i Sion Llanguwc, ac o ochr ei mam yn hanu oddiwrth Sion Llewelyn o Goedcymar. Er yn blentyn yr oedd yn un o ffyddloniaid yr H.D.C., ac nid oedd ei lle byth yn wâg tra gallai. Yr oedd yn y cwrdd dydd Sul, y 12fed, yn gwrando Hathren. Enwog oedd am ei diniweidrwydd, a gair da iddi gan bawb. Ni chlywyd ganddi air anngharedig am neb, ac yn mhob cyflwr yr oedd hi yn foddlawn. Yr oedd yn llawn cydymdeimlad a charedigrwydd, ac yn hynod haelionus lle gwelai eisieu. Gwasanaethwyd yn yr H.D.C., ddydd yr angladd, gan R J.J., a chladdwyd yn y Cemetery.

Medi 19, Lewis Thomas, mab anwyl Rees a Rebecca Jones, Cefncoedcymmer, ac ŵyr, o ochr ei dad, i'r diweddar Evan Jones, Felin Faenog, yn 11 oed. Anhawdd genym ydyw gallu sylweddoli fod y plentyn prydferth hwn, a ymddangosai bob amser mor iach, wedi dianc arnom y tu hwnt i'r orchudd. Cafodd anwyd trwm i ddechreu, yr hyn a droes yn fuan yn *pneumonia* o'r fath waethaf, ac fe esgorodd hwnw drachefn ar glefydau peryglus ereill, fel mai cystudd poenus iawn a gafodd am yspaid tri mis o amser. Deallodd y meddygon fod drwg yn ei ranau mewnol, ac er symmud y cyfryw, gorfu i'r un bychan ymostwng i ddwy *operation*, ond dyoddefodd ei holl boenau dirfawr yn dawel a chyda hunan-feddiant hynafgwr. Methodd holl fedr meddygon gwych ag arbed ei fywyd, a bellach, mae Lewis fwyn wedi ein blaenu am ryw dymhor. Y diniweitiaf o blant ydoedd ein cyfaill ieuainc, yn ffefryn gan bawb, ac yn enwedig gan ei gyd-ieuenctyd. O ffyddloniaid yr Hen Dy Cwrdd, yr oedd Lewis yn teilyngu ei restru yn mhlith y ffyddlonaf: nid oedd ei le byth yn wâg, na'i gariad at y cwrdd a'r Ysgol Sul byth yn oeri. Y dydd Llun dylynol, claddwyd ei weddillion yn Mynwent yr Hen Dy Cwrdd, a gwasanaethwyd i dyrfa luosog gan y Parchn. R. J. Jones, M.A., a J. Hathren Davies. Yn nygiad ymaith un oedd mor hoffus ganddynt, gobeithiwn y ca y rhieni trallodus nerth i ymdawelu yn yr addewidion am fywyd ar ol angeu ac am ail-gyfarfod. Trefn Duw, er yn ddyrus, sydd yn sicr o fod yn iawn ac yn oreu.

Ffarwel am dymhor, Lewis dawel!
Prydferth o'et tra yma'n bod;
Prydferth etto'n myd yr angel;
Yn debyg it' O carwn fod.

Medi 21, ar ol cystudd hir a chaled, James Evans, Pantiorlech, yn 59 mlwydd oed. Y dydd Llun canlynol, hebryngwyd ei weddillion marwol i gladdfa Llwynrhydowen, pan y daeth torf luosog yn nghyd i'r cynhebrwng. Yn y ty ac ar lan y bedd gwasanaethodd y Parch. W. J. Davies, Llandyssul; yn y capel pregethodd y Parch. T. Thomas bregeth bwrpasol i'r amgylchiad galarus. Dyn diniwed, tawel, a chymmwynasgar oedd yr ymadawedig. Bu yn aelod ffyddlon yn eglwys Llwynrhydowen yn ystod ei oes. Ychydig flynyddau yn ol, claddodd ei briod, fel y mae eu pump plentyn erbyn heddyw yn amddifaid. Boed yr Arglwydd yn Dad iddynt, a chaffed eu perthynasau fendith i'w dwyn i fyny yn llwybrau yr Arglwydd.

Jenkin Howell, Argraffydd, &c., Aberdar.



Y Parch. David Lloyd, M.A., Ll.D.,
1805—1863